PARTNERIAETH

Cyd-bwyllgor Partneriaeth

Dydd Gwener, 29 Ebrill 2022

Cyfarfod rhithwir
13:04pm - 13:47pm

CADEIRYDD: Y Cynghorydd Emlyn Dole, Arweinydd, Cyngor Sir Caerfyrddin

Aelodau â Phleidlais	
Y Cynghorydd Emlyn Dole	Arweinydd, Cyngor Sir Caerfyrddin
Y Cynghorydd Robert Smith	Yr Aelod Cabinet dros Addysg, Sgiliau a Dysgu Gydol Oes, Cyngor Abertawe
Y Cynghorydd David Simpson	Arweinydd, Cyngor Sir Penfro
Prif Weithredwyr	
Mr Phil Roberts (Prif Weithredwr Arweiniol)	Prif Weithredwr (Cyngor Abertawe)
Mr Will Bramble	Prif Weithredwr (Cyngor Sir Benfro)
Cyfarwyddwyr Addysg	
Mr Gareth Morgans	Cyngor Sir Caerfyrddin (Cyfarwyddwr Arweiniol)
Mr Steven Richards-Downes	Cyngor Sir Penfro (Dirprwy Gyfarwyddwr Arweiniol)
Y Cynghorydd Guy Woodham	Yr Aelod Cabinet dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Cyngor Sir Penfro)
Mr Jonathan Haswell	Swyddog A151 ERW/Partneriaeth (Cyfarwyddwr Adnoddau, Cyngor Sir Penfro)
Ms Tracey Meredith	Swyddog Monitro ERW/Partneriaeth (Cyngor Abertawe)
Mr Ian Altman	Swyddog Arweiniol Partneriaeth
Ms Helen Lewis	Adnoddau Dynol Partneriaeth (Cyngor Sir Penfro)
Mr Mark Campion	Estyn
Matthew Holder	Pennaeth Archwilio Mewnol ERW/Partneriaeth (Cyngor Sir Penfro)
Mark Mclaughlin	Prif Gyfrifydd ERW/Partneriaeth (Cyngor Sir Penfro)
Sarah Edwards	Dirprwy Swyddog A151 ERW/Partneriaeth (Cyngor Sir Penfro)
Ms Emma Bryer	Cyngor Sir Caerfyrddin (Gwasanaethau Democrataidd)
Mrs Kelly Evans	Cyngor Sir Caerfyrddin (Gwasanaethau Democrataidd)
Mr Aled Eynon	Cyngor Sir Caerfyrddin (Cyfieithu)

1. ETHOL CADEIRYDD Y CYD-BWYLLGOR AM GYFNOD O DWY FLYNEDD

Bu'r Cyd-bwyllgor yn ystyried enwebiadau i'w penodi i swydd y Cadeirydd am gyfnod o ddwy flynedd. Bydd hyn yn cael ei adolygu ar ôl yr Etholiadau ar 5 Mai, 2022.

PENDERFYNWYD y bydd yr aelodau canlynol yn cael eu hethol yn y cyfamser a'u hadolygu ar ôl yr etholiadau ar 5 Mai 2022 :-

1.1 Penodi'r Cynghorydd Emlyn Dole (Cyngor Sir Caerfyrddin) yn Gadeirydd Cyd-bwyllgor Partneriaeth
1.2 Penodi'r Cynghorydd David Simpson (Cyngor Sir Penfro) yn Ddirprwy Gadeirydd Cyd-bwyllgor Partneriaeth
1.3 Penodi'r Cynghorydd Robert Stewart (Cyngor Sir Abertawe) yn Ddirprwy Gadeirydd Cyd-bwyllgor Partneriaeth

2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Wendy Walters, (Prif Weithredwr Cyngor Sir Caerfyrddin), y Cynghorydd Rob Stewart (Arweinydd Cyngor Dinas a Sir Abertawe) a'r Cynghorydd Glynog Davies, (Cyngor Sir Caerfyrddin).

3. DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol yn y cyfarfod.

4. CYTUNDEB CYFREITHIOL PARTNERIAETH A SWYDDOGAETHAU'R CYD-BWYLLGOR

Derbyniodd y Cyd-bwyllgor adroddiad yn cymeradwyo cytundeb cyfreithiol Partneriaeth ac i wneud penderfyniadau llywodraethu a gweithredol allweddol yn unol â chylch gorchwyl y Cyd-bwyllgor.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL

- **Bod cytundeb cyfreithiol y cytunwyd arno ac a lofnodwyd gan bob un o'r tri Chyngor yn cael ei gymeradwyo.**
- **Bod sefydlu Grŵp Strategol, Grŵp Gweithrediadau a Grŵp Rhanddeiliaid yn unol â'r cylch gorchwyl yn Atodlen 4 a 5 o'r cytundeb cyfreithiol yn cael ei gymeradwyo**
- **Bod y cylch gorchwyl ar gyfer y Grŵp Cynghorwyr Craffu ar y Cyd yn Atodlen 6 yn cael ei gymeradwyo**
- **Bod y Cynghorau Arweiniol sy'n ymgymryd â'r Swyddogaethau a nodir yn y tabl ym mharagraff 5 o'r adroddiad hwn yn cael eu penodi**
- **Cytuno ar y penodiadau ar gyfer y Prif Weithredwr Arweiniol, y Cyfarwyddwr Addysg Arweiniol a'r Prif Swyddog Cyllid Arweiniol**
- **Bod y penderfyniad gan bob un o'r cynghorau i Bartneriaeth ddarparu gwasanaethau i gynghorau eraill nad ydynt yn rhan o'r cytundeb cyfreithiol sef Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Powys yn unol â chymal 14 y cytundeb cyfreithiol gyda'r awdurdod a ddirprwywyd i'r Cyngor Arweiniol sy'n gyfrifol am Gontractau a Chaffael i ddrafftio'r**

cytundebau lefel gwasanaeth a'r contractau priodol sy'n angenrheidiol i ddiogelu buddiannau Partneriaeth yn cael ei gymeradwyo.

5. CYLLIDEB AMLINELLOL PARTNERIAETH 2022/23

Derbyniodd y Cyd-bwyllgor adroddiad ar y gyllideb amlinellol ar gyfer 2022-23 cyn i'r Cynghorau ei gymeradwyo. Nodwyd bod yr adroddiad yn rhoi gwybodaeth fanwl benodol mewn perthynas â'r canlynol:

- Rhagdybiaethau ac amcangyfrifon
- Cyfraniadau Awdurdodau Lleol
- Cytundebau Lefel Gwasanaeth
- Risgiau

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL :-

- **Bod y rhagdybiaethau a'r amcangyfrifon a wnaed wrth lunio'r gyllideb amlinellol ar gyfer 2022-23 yn cael eu nodi**

- **Bod cyfraniadau'r Awdurdodau Lleol ar gyfer 2022-23, y Cytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) ar gyfer 2022-23 a'r gyllideb amlinellol ar gyfer 2022-23 yn cael eu cymeradwyo, yn dilyn cymeradwyaeth gan y Cynghorau.**

- **Bod Swyddog Adran 151 Partneriaeth yn cael ei awdurdodi i wneud diwygiadau i'r gyllideb amlinellol wrth i ragdybiaethau ac amcangyfrifon 2022-23 gael eu cadarnhau.**

6. DIWEDDARIAD / CYNLLUN BUSNES DRAFFT PARTNERIAETH 2022-23

Derbyniodd y Cyd-bwyllgor adroddiad ar werthuso Cynllun Busnes 2021-22 a Chynllun Busnes drafft 2022-23 gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am ddarpariaeth bresennol Partneriaeth.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL :-

- **bod cynnwys Cynllun Busnes drafft 2022-23 sydd wedi'i atodi i'r adroddiad hwn yn cael ei nodi**

- **bod fersiwn derfynol o Gynllun Busnes 2022-23 yn dod yn ôl gerbron y Cyd-bwyllgor i'w gymeradwyo.**

7. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYS YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL, 1972.

Nododd y Cadeirydd nad oedd unrhyw faterion eraill y dylid eu hystyried fel mater o frys.

(SYLWCH: MAE'R COFNODION HYN YN AMODOL AR GAEL EI GADARNHAU GAN Y CYD-BWYLLGOR YN EI GYFARFOD NESAF)

Cyn dirwyn y cyfarfod i ben, manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i ddiolch i bawb am eu gwaith caled yn sefydlu Partneriaeth a bod hyn yn ddechrau ar bartneriaeth lwyddiannus.

_____ _____

CHAIR **DATE**